
Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response

Enw / Name:	Meilyr Rowlands
Rôl / Role:	Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
E-bost / Email:	prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru
Rhif Ffôn / Tel No:	02920 446 446
<hr/>	
Dyddiad / Date:	7/05/2020
Pwnc / Subject:	Trefniadau eithriadol ar gyfer asesu a graddio yn 2020

Gwybodaeth gefndir am Estyn

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

Ymateb

Cyflwyniad

Mae Estyn yn croesawu'r dull arfaethedig fel dull ymarferol a chytbwys o sicrhau bod cyn lleied o ddysgwyr ag y bo modd dan anfantais yn ystod y cyfnod anodd hwn. Mae ystyriaeth ofalus Ofqual i'r ystod eang o gymwysterau, modelau cyflwyno ac amgylchiadau dysgwyr, yn arwain at arweiniad sy'n gynhwysfawr. Er na all Ofqual fynd i'r afael yn uniongyrchol â phob set bosibl o amgylchiadau, rydym ni'n hyderus fod y fframwaith yn amlinellu blaenoriaethau allweddol addas ac yn diffinio'n glir yr amrywiaeth o strategaethau posibl y gall sefydliadau dyfarnu eu defnyddio.

Rydym yn cytuno ei bod yn fuddiol a theg mabwysiadu fframwaith cyson, lle mae dysgwyr ar draws y gwledydd datganoledig yn gweithio tuag at yr un cymwysterau, gyda'r un sefydliad dyfarnu.

Rydym yn cytuno â'r egwyddor mai'r sefydliadau dyfarnu ddylai benderfynu ar y manylion ynglŷn â sut dylid penderfynu deilliannau. Nhw sydd yn y lle gorau i deilwra'r strategaethau graddio yn unol â'r amrywiaeth o gymwysterau gwahanol iawn a gynigir a gweithio gyda darparwyr. Cawn ein calonogi gan y ffaith fod pwyslais cryf y dylid dyfarnu graddau mewn ffordd mor deg ag y bo modd, ac mewn modd dibynadwy, sy'n dibynnu ar ffynonellau tystiolaeth ymddiriedus. Mae'r fframwaith yn cynnwys disgwyliadau clir o ran sicrhau ansawdd, cadw cofnodion a'r angen i ddiogelu yn erbyn camweddau.

Mae'r asesiad effaith yn disgrifio manteision ac anfanteision methodolegau arfaethedig y fframwaith ar randdeiliaid. Mae'n cynnwys cydnabyddiaeth dryloyw na fydd gweithredu'r cynigion yn lliniaru yn erbyn effaith negyddol yr ymateb i Covid-19 ar addysg, hyfforddiant a/neu ddilyniant gyrfa'r holl ddysgwyr yn gyfartal. Fodd bynnag, mae'n amlinellu'r rhesymeg gyfiawn y tu ôl i pam na fyddai'n ddiogel cyfrifo a chyhoeddi deilliannau cymwysterau sy'n ardystio cymhwysedd ymarferol, er enghraifft, lle na fu modd asesu diogelu arferion gweithio dysgwyr yn y cyfnod anarferol hwn.

Cwestiwn 1: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n dull arfaethedig o ran cymwysterau sy'n disgyn y tu allan i gwmpas y fframwaith rheoleiddio anarferol?

Rydym yn cytuno â'r cynnig mewn egwyddor. Mae'r Fframwaith VTQ Covid-19 drafft ei hun yn datgan yn ddefnyddiol y dylai sefydliadau dyfarnu ystyried gofynion yr amodau VTQCov a amlinellir yn y fframwaith, hyd yn oed pan fydd cymwysterau yn disgyn y tu allan i gwmpas y cyfarwyddyd. Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r manylyn pwysig hwn yn cael ei amlygu mewn unrhyw ddogfennau ategol a chryno. Rydym yn ffyddiog y byddai nifer y cymwysterau o'r fath, a nifer y dysgwyr dan sylw, yn fach iawn.

Cwestiwn 2: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n dull arfaethedig o bennu i ba ddysgwyr y mae'r fframwaith rheoleiddio mewn cyfnod anarferol yn berthnasol?

Rydym yn cytuno'n gryf y dylai cynifer o gymwysterau ag y bo modd (nad ydynt yn cael eu cwmpasu gan y cyfarwyddyd TGAU, UG a Safon Uwch, neu arweiniad ar wahân a gyhoeddwyd gan y gwledydd datganoledig), fod yn destun yr arweiniad asesu a amlinellir gan y fframwaith arfaethedig.

Rydym yn cytuno, lle mae dysgwyr ar draws y gwledydd datganoledig yn gweithio tuag at yr un cymwysterau, gyda'r un sefydliad dyfarnu, ei bod yn fuddiol ac yn deg mabwysiadu fframwaith cyson. Mae nodyn i egluro'r sefyllfa ar y graddau y gallai cymwysterau cyfwerth â Sgiliau Gweithredol mewn gwledydd eraill, er enghraifft cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru, sy'n dod o dan yr un arweiniad, fod yn ddefnyddiol ar gyfer darparwyr a sefydliadau dyfarnu.

Gallai fod yn fuddiol cynnwys cyfeiriad uniongyrchol yma at ddysgwyr sy'n dilyn rhaglenni cyrsiau cymysg, er enghraifft y rhai sy'n gweithio tuag at gymwysterau galwedigaethol ochr yn ochr â chysiau Safon Uwch, sy'n golygu y byddant yn cael eu heffeithio gan y ddwy set o gyfarwyddyd.

Cwestiwn 3: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cydbwysedd rydym ni'n ei gynnig ar draws y 3 elfen, sef: dirprwyo i gyrff dyfarnu, hyblygrwydd a chysondeb?

Rydym yn cytuno mai cyrff dyfarnu sydd yn y sefyllfa orau i bennu'r atebion gorau posibl ar gyfer eu cymwysterau. Efallai y byddai'n fuddiol datgan yma p'un a fydd yn ofynnol i sefydliadau dyfarnu adrodd am eu dyfarniadau bwriadedig i Ofqual mewn da bryd cyn y dyddiad dyfarnu, i ganiatáu ar gyfer craffu.

Mae'r opsiynau 'cyfrifo, addasu neu ohirio' yn darparu set bragmataidd a hyblyg addas o opsiynau a all fod yn sail i ddulliau sefydliadau dyfarnu. Gallai fod yn ddefnyddiol pwysleisio yma, fel isod, y gallai sefydliadau dyfarnu ddefnyddio gwahanol ddulliau ar gyfer gwahanol elfennau o gymhwyster. Er enghraifft, asesiad wedi'i addasu o'r wybodaeth ddamcaniaethol am iechyd a diogelwch, canlyniad cyfrifedig ar gyfer gwybodaeth dechnegol, ac asesiad gohiriedig o fedrau ymarferol allweddol ar gyfer arferion gweithio diogel.

Cwestiwn 4: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r egwyddorion allweddol rydym wedi'u hamlinellu?

Rydym yn cytuno i raddau helaeth â'r egwyddorion arfaethedig, fel y'u cyflwynwyd. Maent yn ffurfio sylfaen gadarn ar gyfer y ffordd y bydd angen i sefydliadau dyfarnu a darparwyr ymateb. Maent yn mynd i'r afael â'r amcanion y dylai sefydliadau dyfarnu weithio i'w cyflawni, mewn modd blaenoriaethol.

Mae dibynadwyedd deilliannau yn cael ei gynnwys fel egwyddor ar wahân (ail flaenoriaeth), yn ogystal â chafeat ar gyfer yr egwyddor gyntaf. Dull arall fyddai disodli'r ddwy egwyddor gyntaf â:

'Sicrhau bod canlyniadau teg, yn seiliedig ar dystiolaeth ddibynadwy, yn cael eu cyflwyno i gynifer o ddysgwyr ag y bo modd yn ystod gwanwyn/haf 2020'.

Gallai fod yn bragmataidd hefyd cyfeirio at 'faich cyfyngedig' yn hytrach nag isafswm y baich. Yn ychwanegol, byddai'r cyfeiriad at 'leihau'r baich' yn gliriach pe bai testun yn cyd-fynd ag ef. Byddai'n fuddiol egluro p'un a yw hyn yn cyfeirio at y baich ar ddysgwyr a/neu staff y darparwr a/neu'r sefydliadau dyfarnu eu hunain.

Cwestiwn 5: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i ganiatáu i sefydliadau dyfarnu gyflwyno'r cymwysterau yn ôl yr arfer lle gallan nhw wneud hynny?

Rydym yn cytuno y dylai sefydliadau dyfarnu fod yn rhydd i gymhwyso arferion gweithio arferol, lle bo'n briodol. Er enghraifft, gallai fod angen i gyrsiau sydd â chyfran uchel o ddysgu o bell gydag asesiadau llyfr agored ar-lein asesu yn ôl yr arfer er mwyn sicrhau canlyniadau teg a dibynadwy.

Cwestiwn 6: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n dulliau arfaethedig ar gyfer y gwahanol gategoriâu o gymwysterau?

Mae'r tri chategori a'r arweiniad cysylltiedig yn ddefnyddiol i helpu tywys gwneud penderfyniadau a hyrwyddo cysondeb ar draws sefydliadau dyfarnu. O ystyried y bydd rhai cymwysterau yn gymysg a bydd angen gwahanol ddulliau asesu ar gyfer gwahanol elfennau o'r un cymhwyster, mae'r gydnabyddiaeth yn bwysig.

Yn yr amgylchiadau eithriadol sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd, teimlwn fod y rhesymeg dybiedig ganlynol ar gyfer y gwahanol ddulliau yn dderbyniol, ond ni chaiff ei chyfleu yn uniongyrchol. Pan gaiff cymwysterau cyfrifedig eu defnyddio ar gyfer dilyniant i astudio ymhellach, bydd y bylchau mewn dysgu naill ai'n cael eu llenwi mewn cyfnod dysgu diweddarach, er enghraifft yn ystod astudiaethau addysg uwch, neu ni fyddant yn cael eu defnyddio gan fod y dysgwr wedi symud ymlaen i faes astudio gwahanol. Fodd bynnag, gallai fod angen i ddysgwyr sy'n symud ymlaen i'r gweithle fod wedi datblygu cymwyseddau galwedigaethol penodol i gyflawni eu rolau yn ddiogel. Mae cael y ddau ddull gwahanol, sef 'cyfrifo' ar gyfer yr un cyntaf, a 'gohirio' (neu addasu) ar gyfer yr ail o'r ddwy senario hyn, yn ddull annymunol ond yn un cyfiawnadwy a phragmataidd yng nghyd-destun y tarfu ar ddysgu sy'n digwydd ar hyn o bryd.

Rydym yn sylweddoli na fydd ystyried bwriadau dilyniant dysgwyr unigol yn ddichonadwy, nac yn wir, yn deg. Er nad yw efallai o fewn cwmpas y fframwaith hwn, bydd angen ystyriaeth ac arweiniad pellach wrth ddyfarnu cymwysterau ar gyfer dysgwyr sy'n mynd ymlaen i lwybrau prentisiaeth.

Cwestiwn 7: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â nodau ein dull arfaethedig o gyfrifo canlyniadau?

Rydym yn cytuno bod nodau arfaethedig yr opsiwn cyfrifo canlyniadau yn briodol. Efallai y dylid lleddfu'r cyfeiriad at yr 'uchafswm nifer bosibl o ddysgwyr' gan y bydd y cymwysterau a effeithir wedi cael eu penderfynu yn ôl y categorïau cymhwyster a ddiffiniwyd yn flaenorol. Nid yw'n glir p'un a yw'r cyfeiriad at 'raddau' hefyd yn cwmpasu deilliannau cyrsiau nad oes ganddynt unrhyw strwythur gradd, h.y. llwyddo / methu? Mae'n ymddangos ei fod yn tybio mai cymwysterau â deilliannau graddedig yn unig y dylid eu hystyried yn gymwys ar gyfer yr opsiwn 'cyfrif', gan mai nhw yw'r cymwysterau sy'n caniatáu yn gyffredinol ar gyfer dilyniant i astudio ymhellach. Yn fwy cyffredinol, byddai arweiniad clir ar gyfer y mathau hyn o gyrsiau methu / llwyddo o fewn y fframwaith yn ddefnyddiol.

Byddai'n ddefnyddiol egluro p'un a fydd disgwyl i sefydliadau dyfarnu a darparwyr anelu am gysondeb o ran cyfraddau cyflawni / llwyddo â blynyddoedd blaenorol. Un o ganlyniadau posibl y mesurau hyn yw, er y gallai proffiliau graddau, ar gyfer cymwysterau â deilliannau graddedig, gyd-fynd â blynyddoedd blaenorol, bydd cyfran y dysgwyr sy'n llwyddo i ennill eu cymwysterau gryn dipyn yn uwch na'r cyfartaledd dros y blynyddoedd diwethaf.

Cwestiwn 8: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig mai'r trothwy tystiolaethol gofynnol yw bod angen seilio unrhyw ddull o ddarparu canlyniadau cyfrifedig ar o leiaf un ffynhonnell o dystiolaeth ymddiriedus, ynghyd â sylfaen ddigon cadarn ar gyfer sicrhau ansawdd?

Rydym yn cytuno â'r dull hwn. Mae'r gofynion sydd wedi'u cynnwys ar gyfer mesurau sicrhau ansawdd a gwiriad synnwyr effeithiol ar gyfer parhad proffiliau graddau yn erbyn blynyddoedd blaenorol yn bwysig. Byddem yn annog gofal wrth ddefnyddio gwybodaeth am gyrhaeddiad blaenorol (o gymwysterau eraill) i gyfrannu tuag at benderfyniadau graddio.

Mae'r fframwaith rheoleiddio eithriadol drafft ei hun yn cynnwys arweiniad ychwanegol buddiol yn ymwneud ag amgylchiadau lle defnyddir gwahanol fodolau cyflwyno ac asesu ar gyfer gwahanol ddysgwyr sy'n dilyn yr un cymhwyster. Mae'r cyfarwyddyd sydd wedi'i gynnwys i sefydliadau dyfarnu ddefnyddio dulliau hyblyg o bennu deilliannau dysgwyr mewn achosion o'r fath, tra'n diogelu yn erbyn mantais neu anfantais systematig ar gyfer unrhyw ddysgwyr, yn fuddiol.

Cwestiwn 9: A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y dull o ddarparu canlyniadau cyfrifedig?

Mae'r dull arfaethedig o gyfrifo canlyniadau yn briodol. Mae'n gyson ag arweiniad ar gyfer cyfrifo graddau sy'n gweddu orau i ddysgwyr sy'n dilyn rhaglenni UG, Safon Uwch a TGAU, tra'n darparu'r hyblygrwydd angenrheidiol i fynd i'r afael â'r strwythurau cyflwyno a dyfarniadau cymhleth ar gyfer yr amrywiaeth o gymwysterau a ystyrir. Mae'r arweiniad yn fanwl ac yn mynd i'r afael ag ystod

eang o senarios y bydd athrawon, darparwyr a sefydliadau dyfarnu yn eu hwynebu, a champau gweithredu addas y gellir eu cymryd.

Gallai sefydliadau dyfarnu a darparwyr elwa ar arweiniad penodol ar ba gyfran o ddysgu y dylid bod wedi ymgymryd â hi yn llwyddiannus er mwyn ystyried cyfrifo deilliannau yn ddewis dilys. Er enghraifft, pan ddechreuodd cyrsiau byrrach ym mis Ionawr ac y disgwyliwyd iddynt gael eu cwblhau cyn yr haf, p'un a yw'r dysgwyr hyn wedi ymgymryd â chyfran ddigonol o'u dysgu ar gyfer cyfiawnhau deilliant cyfrifedig, a dyfarnu'r cymhwyster heb asesiad ychwanegol.

Cwestiwn 10: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n dull arfaethedig o addasu asesiadau?

Rydym yn cytuno â'r dull arfaethedig ar gyfer asesu wedi'i addasu. Ceir cyfeiriad defnyddiol at y mater pwysig yn ymwneud ag asesiadau a chymwysterau sy'n gweithredu fel trwydded i ymarfer. Mae'r arweiniad hefyd yn rhoi cyfarwyddiadau clir a phragmataidd i sefydliadau dyfarnu ar weithio i leihau unrhyw anfantais i grwpiau o ddysgwyr o ganlyniad i drefniadau asesu wedi'u haddasu. Hefyd, mae'n cydnabod mewn rhai achosion efallai nad oes modd osgoi rhywfaint o anfantais. Dylai'r fframwaith hefyd gynnwys arweiniad pellach ar sut i liniaru'r effaith ar y dysgwyr hynny sydd mewn perygl o fod dan anfantais yn sgil methodolegau asesu wedi'u haddasu.

Cwestiwn 11: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid gohirio neu aildrefnu asesiadau fel y dewis olaf?

Rydym yn cytuno â'r cafeat, lle na ellir cyfrifo canlyniadau cymwysterau neu addasu asesiadau mewn modd sy'n sicrhau diogelwch a dibynadwyedd, na ddylai sefydliadau dyfarnu osgoi asesu gohiriedig.

Cwestiwn 12: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynigion ynglŷn â gwneud penderfyniadau a chadw cofnodion?

Rydym yn cytuno'n gryf ac yn teimlo bod y cynigion hyn yn ymddangos yn ddisgwyliadau cymesur a rhesymol. Mae gosod rhwymedigaeth ar gyrff dyfarnu i gadw cofnodion o'r rhesymeg y tu ôl i wneud penderfyniadau, gan gynnwys y methodolegau y tu ôl i ganlyniadau cyfrifedig, yn ffordd effeithiol o helpu diogelu dibynadwyedd a thegwch y canlyniadau a gyhoeddwyd. Mae'r cynnig i nodi fformat safonedig ar gyfer y cofnodion hyn yn ymarferol.

Cwestiwn 13: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n dull arfaethedig o oruchwyllo sefydliadau dyfarnu?

Rydym yn cytuno bod y dull arfaethedig yn gosod tôn gadarnhaol ar gyfer y berthynas waith gyda sefydliadau dyfarnu o dan yr amgylchiadau eithriadol hyn. Mae'r egwyddorion y tu ôl i'r trefniadau goruchwyllo yn sicrhau cydbwysedd priodol rhwng ymddiriedaeth ac atebolrwydd.

Gallai'r cyfeiriad at fonitro'n agos y dulliau a ddefnyddir i sicrhau canlyniadau ar gyfer cymwysterau Sgiliau Gweithredol elwa ar gyfeiriad at gyfrifoldeb goruchwyllo ar gyfer y cymwysterau cyfwerth yn y gwledydd datganoledig, er enghraifft cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru.

Cwestiwn 14: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n sefyllfa arfaethedig ar gyflwyno cyfle asesu i ddysgwyr yn hydref 2020?

Rydym yn cytuno â'r cynnig ar gyfer asesiadau yn yr hydref. Mae'n galonogol fod y fframwaith yn nodi y gall Ofqual ofyn am drefnu bod cyfleoedd asesu ychwanegol ar gael yn ystod tymor yr hydref, os bydd angen. Mae hyn yn darparu cynnig diogelwch i ddarparwyr a dysgwyr.

Byddai'n fuddiol darparu arweiniad ychwanegol ynglŷn â graddau'r dewis fydd ar gael i ddarparwyr a dysgwyr. Gallai hyn gynnwys arweiniad ar y senarios canlynol:

- p'un a fydd rhaid i sefydliadau dyfarnu gynnig dewis asesiad gohriedig i ddarparwyr neu ddysgwyr;
- lle mae dysgwr yn gymwys am ganlyniad cyfrifedig, ond yn dewis ymgymryd ag asesiad gohriedig, p'un a yw deiliant yr asesiad yn disodli'r deiliant cyfrifedig arall;
- p'un a fydd deiliant gorau, sef naill ai'r deiliant cyfrifedig neu'r asesiad gohriedig, yn cael ei ddefnyddio i bennu'r radd derfynol.

Cwestiwn 15: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n dull arfaethedig o ymdrin ag apeliadau?

Rydym yn cytuno bod cynnal yr egwyddorion presennol y tu ôl i drefniadau apeliadau yn unol ag Amod Cyffredinol Cydnabyddiaeth I1, ond gydag arweiniad ychwanegol ar gyfer yr amgylchiadau eithriadol hyn, yn ddull priodol. Yn ôl yr hyn a gynigir, bydd yn fuddiol alinio arweiniad ar apeliadau mor agos ag y bo'n ymarferol bosibl â'r rhai ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch.

Cwestiwn 16: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n sefyllfa arfaethedig o ran tystysgrifau?

Rydym yn cytuno, ar y cyfan, nad oes angen rhyw lawer o newid o ran ardystio. Fodd bynnag, gallai helpu dysgwyr i gael ychydig o arweiniad gan y sefydliadau dyfarnu ar amseroldeb cyhoeddi tystysgrifau yn dilyn asesiadau yn ystod tymor yr hydref. Gallai fod angen prawf o gyrhaeddiad o'u cymwysterau ar unwaith ar rai dysgwyr i symud ymlaen i addysg neu gyflogaeth yn nhymor yr hydref.

Cwestiwn 17: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n dull arfaethedig o ran dysgwyr preifat?

Rydym yn cytuno'n gryf fod hwn yn gynnig ystyriol a phragmataidd.

Cwestiwn 18: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n dull arfaethedig mewn perthynas â dysgwyr nad ydynt wedi eu cofrestru ar gyfer asesiad eto?

Rydym yn cytuno â'r dull hwn. Mae'n ddefnyddiol fod yr arweiniad yn cydnabod y risg wrth i rai dysgwyr ddatgan eu bwriadau asesu er mwyn ceisio manteisio ar y trefniadau arbennig sydd ar waith eleni, a dylai sefydliadau dyfarnu fod yn wylidwrs yn hyn o beth. Mae'r gofyniad iddynt fonitro am batrymau cofrestru anarferol i warchod yn erbyn camdriniaeth yn un pwysig.

Cwestiwn 19: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n bwriad i beidio â gofyn am unrhyw ddull penodol ar gyfer addasu asesiadau a/neu gyhoeddi canlyniadau i ddysgwyr rhyngwladol?

Rydym yn cytuno bod hyn yn briodol.

Cwestiwn 20: A oes gennych chi unrhyw sylwadau am ein sefyllfa arfaethedig o ran sefydliadau dyfarnu sy'n wynebu anawsterau ariannol?

Nac oes, mae'r cynigion yn realistig.

Cwestiwn 21: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n sefyllfa arfaethedig o ran cyhoeddi canlyniadau ar gyfer dysgwyr cymwysterau Sgiliau Gweithredol?

Mae'r sefyllfa yn adlewyrchu ystyriaeth drylwyr i ystod eang o fodelau cyflwyno ac asesu ar gyfer y cymwysterau hyn. Mae'r trefniadau ar gyfer y cymwysterau hyn o bosibl mewn mwy o berygl o gael eu camddefnyddio na threfniadau cyffredin. Rydym yn falch o weld bod yr un baich ar sefydliadau dyfarnu i ystyried dibynadwyedd y dystiolaeth yn bodoli ar gyfer y cymwysterau hyn, yn yr un modd ag ar gyfer cymwysterau galwedigaethol.

Gallai fod yn ddefnyddiol datgan y sefyllfa o ran sut mae'r canllawiau hyn yn ymwneud â'r cymwysterau cyfatebol o fewn y gwledydd datganoledig, fel cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru.

Cwestiwn 22: A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y fframwaith rheoleiddio arfaethedig?

Mae'r fframwaith fel y'i cyflwynir yn Rhan B yn darparu trosolwg cryno clir ac addas o'r arweiniad gyda dolenni at ragor o fanylion ar gyfer sefydliadau dyfarnu a rhanddeiliaid eraill. Mae'r dull o weithredu'r fframwaith VTQ Covid-19 yn briodol. Mae'n glir y bydd yn dod uwchlaw'r amodau cyffredinol presennol o ran cydnabyddiaeth, ac y byddant mewn grym nes clywir yn wahanol, ac y gellir ei dynnu'n ôl yn rhannol neu'n llawn ar unrhyw adeg. Mae'n ymddangos bod y rhain yn benderfyniadau synhwyrol sy'n rhoi'r hyblygrwydd i Ofqual ymateb yn briodol i'r ymateb i'r pandemig wrth iddo esblygu.

Gweler yr ymateb i gwestiwn 4 ar y pum egwyddor allweddol.

Cwestiwn 23: A oes yna unrhyw effeithiau eraill posibl o ran cydraddoldeb nad ydym ni wedi eu harchwilio? Os oes, beth ydyn nhw?

Mae'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn werthusiad tryloyw, ac a ystyriwyd yn ofalus, o'r effaith ar wahanol grwpiau o ddysgwyr, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchoddedig. Mae'n cydnabod yr her anodd iawn i geisio sicrhau bod rhoi'r trefniadau eithriadol ar waith yr un mor fuddiol i bob grŵp o ddysgwyr. Mae'n cydnabod, tra'n lliniaru yn erbyn y tarfu yn gysylltiedig â Covid-19 ar addysg a hyfforddiant i lawer o ddysgwyr, y bydd yna achosion na ellir eu hosgoi lle na all y trefniadau gynnig yr un manteision i ddysgwyr eraill.

Mae'r ffigurau a ddarparwyd yn dangos bod dysgwyr o rai grwpiau, er enghraifft o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is, a dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig, yn fwy tebygol o ddod o dan y fframwaith hwn yn hytrach na'r fframwaith ar wahân ar gyfer cyrsiau TGAU, UG a Safon Uwch. Fodd bynnag, nid yw'n gwneud yn ddigon clir ei bod yn fwy tebygol fod y dysgwyr hyn wedi ymgymryd ag asesiadau addasedig neu ohriedig na dysgwyr o gefndiroedd mwy cefnog, neu'r rhai ag anghenion addysgol arbennig, o ganlyniad. Mae hyn oherwydd bod cyfran uwch o'r dysgwyr hyn yn dilyn cyrsiau TGAU, UG neu Safon Uwch lle mae canlyniadau'n fwy tebygol o gael eu cyfrifo. Gallai hyn fod yn anochel o ganlyniad i'r tueddiadau ymrestru ymhlith gwahanol grwpiau o ddysgwyr a'r ffordd na ellir cyfiawnhau canlyniad cyfrifedig ar gyfer rhai cymwysterau. Fodd bynnag, gallai fod yn fuddiol darparu datganiad clir o'r effaith hon ar ddysgwyr o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is, mewn ffordd debyg i'r hyn a wneir o ran dysgwyr â nodweddion gwarchoddedig.

Cwestiwn 24: A oes gennych chi unrhyw safbwyntiau ar y modd y gellid lliniaru unrhyw effeithiau negyddol posibl ar grwpiau penodol o fyfyrwyr?

Mae'n galonogol fod Ofqual yn cysylltu â darparwyr addysg uwch ac addysg bellach i ystyried y camau y gallai darparwyr eu cymryd wrth wneud penderfyniadau am dderbyniadau yn ystod yr haf hwn ar gyfer unrhyw ddysgwyr nad ydynt wedi cael canlyniad.

Efallai y dylai'r arweiniad roi pwyslais cryfach ar yr anogaeth i sefydliadau dyfarnu gynnal eu hasesiadau eu hunain o'r effaith ar gydraddoldeb.

Cwestiwn 25: A oes yna unrhyw effeithiau, costau neu fanteision rheoleiddio yn gysylltiedig â rhoi'r fframwaith hwn ar waith nad ydynt yn cael eu nodi yn yr ymgynghoriad hwn? Os oes, beth ydyn nhw?

Dim un wedi'i nodi gennym ni; mae'r ddogfen ymgynghori yn drylwyr yn hyn o beth.

Cwestiwn 26: Pa gostau ychwanegol ydych chi'n disgwyl fydd gennych chi drwy roi'r fframwaith hwn ar waith? A fyddwch chi'n arbed unrhyw gostau? Pryd gallai'r costau a'r arbedion hyn ddigwydd? Rhowch amcangyfrif o ffigurau, pan fydd modd.

Ddim yn berthnasol

Cwestiwn 27: A oes unrhyw ddulliau ychwanegol neu ddulliau eraill y gallem eu defnyddio i leihau effaith ein cynigion o ran rheoleiddio?

Dim un wedi'i nodi gennym ni.